BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Diogelu Plant ac Oedolion

Wythnos Genedlaethol Diogelu

9 – 13 Tachwedd 2026

RHAGLEN DIGWYDDIADAU

PROFIAD BYWYD

Profiad Bywyd yw'r thema gyffredinol ar gyfer Wythnos Genedlaethol Diogelu 2026 ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae'r thema yn cydnabod pwysigrwydd gwrando ar brofiadau pobl a dysgu ohonynt, a sicrhau bod eu lleisiau yn helpu i lunio sut rydym yn deall risg, yn ymateb i niwed ac yn gwella arferion diogelu.

Drwy gydol yr wythnos, bydd ein rhaglen yn archwilio profiad bywyd o amrywiaeth o safbwyntiau, gan ddod â lleisiau plant a phobl ifanc, oedolion, goroeswyr, ymarferwyr a phartneriaid ynghyd. Bydd digwyddiadau yn ystyried sut y gall profiad ddyfnhau dealltwriaeth broffesiynol, herio rhagdybiaethau a helpu gwasanaethau i ymateb yn fwy effeithiol i'r bobl a'r cymunedau y maent yn eu cefnogi.

Mae'r rhaglen yn cynnwys cyfle i ddysgu am ***ddiogelu wrth droi'n oedolyn, deall profiad bywyd gan ddefnyddio adolygiadau ymarfer, gwrywdod cadarnhaol a misogynedd, cam-drin ariannol, cam-drin domestig a chyfrifoldebau diogelu, ochr yn ochr â gweithgarwch partneriaid lleol helaeth a chyfleoedd pwrpasol i blant a phobl ifanc rannu eu profiadau.*** Bydd yr wythnos hefyd yn cynnwys ein Cynhadledd Diogelu Rhanbarthol, â phwyslais penodol ar gam-drin rhywiol a niwed rhywiol trwy lens profiad bywyd.

Trwy gydol yr wythnos, rydym yn gwahodd ymarferwyr i wrando, i fyfyrio ac i ystyried un cwestiwn pwysig:

Beth all profiad bywyd ei ddysgu i ni am sut rydym yn diogelu pobl yn well?

RHAGLEN DIGWYDDIADAU

ARCHWILIO DIGWYDDIADAU

CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Diogelu Plant ac Oedolion

RHAGLEN DIGWYDDIADAU

Sesiynau Bore

Dydd Llun 9fed	Dydd Mawrth 10fed	Dydd Mercher 11eg	Dydd Iau 12fed	Dydd Gwener 13eg
DIGWYDDIAD: Diogelu Wrth Droi'n Oedolyn **AMSER:** 9:30am-12:00pm **CYFLWYNWYR:** Yr Athro Michael Preston-Shoot | Dr Nathalie Hueglar | Sarah Atkinson | Emma Taylor – Hill | Wes Cunliffe	**DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL** Yn cynnwys digwyddiadau a gweithgareddau partner a gynhelir drwy gydol Wythnos Genedlaethol Diogelu ARCHWILIO DIGWYDDIADAU LLEOL →	**DIGWYDDIAD:** Gwrywdod Cadarnhaol a Herio Misogynedd **AMSER:** 9:30am-11:00am **CYFLWYNWYR:** Pobl Ifanc Sir Benfro gyda Leah Walker	**CYNHADLEDD DIOGELU RHANBARTHOL** *Cam-drin a Niwed Rhywiol* *Dysgu trwy brofiad bywyd* **Theatr Merlin** Coleg Sir Benfro	**DIGWYDDIAD:** Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS): Dyletswydd Gyfreithiol i Gyfeirio **AMSER:** 9:30am-10:30am **CYFLWYNYDD:** Owain Rowlands

Sesiynau Prynhawn

Dydd Llun 9fed	Dydd Mawrth 10fed	Dydd Mercher 11eg	Dydd Iau 12fed	Dydd Gwener 13eg
DIGWYDDIAD: Deall Profiad Bywyd, gan Fanteisio ar Adolygiadau Ymarfer ac Ymchwil i Gryfhau Arferion Diogelu **AMSER:** 2:00pm-4:00pm **CYFLWYNYDD:** Paula McCreary	**DIWRNOD DIGWYDDIADAU LLEOL** DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU PARTNER Gweithgarwch dysgu, cymryd rhan a chodi ymwybyddiaeth gan sefydliadau ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru ARCHWILIO DIGWYDDIADAU →	**DIGWYDDIAD:** Cam-drin Ariannol (Oedolion) **AMSER:** 2:00pm-4:00pm **CYFLWYNYDD:** Dr Martin Vaughan (MEWI)	**CYNHADLEDD DIOGELU RHANBARTHOL** Yn parhau... Prif gyflwyniadau a chyfraniadau o safbwyntiau proffesiynol a phrofiad bywyd. GWELD MANYLION Y GYNHADLEDD →	**DIGWYDDIAD:** Panel Goroeswyr: Profiad Bywyd o Gam-drin Domestig **AMSER:** 1:30pm-3:00pm **CYFLWYNWYR:** Panel Cynghori Goroeswyr Canolbarth a Gorllewin Cymru

ARCHWILIO DIGWYDDIADAU

Dydd Llun 9 Tachwedd

9:30am – 12:00 pm

Cadwch eich lle drwy ddilyn DOLEN

Dyddiad cau: Dydd Gwener 30 Hydref 2026

Diogelu Wrth Droi'n Oedolyn

Hwyluswyr:

Yr Athro Michael Preston-Shoot | Dr Nathalie Hueglar | Sarah Atkinson | Emma Taylor – Hill | Wes Cunliffe

Ynglŷn â'r sesiwn hon

Bydd y sesiwn ryngweithiol hon yn archwilio'r cysyniad o Ddiogelu Wrth Droi'n Oedolyn a bydd yn cynnwys trosolwg o'r egwyddorion allweddol a bydd yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau diogelu trwy lens pobl sy'n troi'n oedolion. Bydd hefyd yn archwilio rhai themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o weithdai a gynhaliwyd ar draws Byrddau Diogelu Rhanbarthol Cymru yn 2026 ac yn cynnwys cyfraniad uniongyrchol gan rywun sydd â Phrofiad Bywyd.

Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael eu hannog i fyfyrio ar yr hyn sy'n galluogi ymarfer amlasiantaeth effeithiol, lle mae rhwystrau yn parhau, a sut y gall dysgu o adolygiadau diogelu helpu i gryfhau dulliau diogelu wrth droi'n oedolyn ar draws gwasanaethau.

Pwy ddylai fod yn bresennol?

Ymarferwyr a Rheolwyr Gwaith Cymdeithasol Perthnasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion), Timau Diogelu Wrth Droi'n Oedolyn, Gwasanaethau Gadael Gofal, Swyddogion yr Heddlu, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthnasol, Swyddogion Prawf, Gweithwyr Addysg Proffesiynol Perthnasol, Swyddogion Adolygu Annibynnol, Ymarferwyr Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid a Sefydliadau Trydydd Sector a Chymunedol Perthnasol.

2:00 – 4:00 pm

Cadwch eich lle trwy ddilyn DOLEN.

Dyddiad cau: Dydd Gwener 30 Hydref 2026

Deall Profiad Bywyd, gan Fanteisio ar Adolygiadau Ymarfer ac Ymchwil i Gryfhau Arferion Diogelu

Hwylusydd:

Paula McCreary

Nodau'r Sesiwn:

Dysgu o adolygiadau ymarfer - archwilio themâu allweddol o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion ac ystyried yr hyn y maent yn ei amlygu ar gyfer ymarfer diogelu.

Deall profiad bywyd — ystyried sut y gellir mynegi profiadau person trwy eiriau, ymddygiad, ymddangosiad, tawelwch, perthnasoedd ac amgylchedd.

Gweld y person cyfan – defnyddio tystiolaeth ymchwil ac ymarfer i edrych y tu hwnt i ddiagnosis, anabledd neu broblemau ymddangosiad, a deall hunaniaeth, hanes, cryfderau, dymuniadau a chyd-destun.

Gweithio ochr yn ochr â phobl a theuluoedd — ystyried sut y gall ymchwil a thystiolaeth ymarfer gefnogi sgyrsiau, perthnasoedd a rhannu dealltwriaeth gydag unigolion, plant, teuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

Datblygu darlun a rennir - archwilio sut y gall gwybodaeth, dadansoddiad a goruchwyliaeth fyfyriol helpu i nodi patrymau, cynnydd a risg gronnol.

Defnyddiwch ymchwil i gryfhau ymarfer - ystyriwch sut y gall ymchwil gefnogi gwaith uniongyrchol, cofnodi, gwneud penderfyniadau a chynllunio amlasiantaeth, gan droi dysgu yn ymarfer diogelu mwy gwybodus.

Pwyslais ymarferol: Deall byd y person • Profiad byw ystyrlon • Ymgorffori chwilfrydedd proffesiynol ac ymarfer myfyriol.

Pwy ddylai fod yn bresennol?

Ymarferwyr a Rheolwyr Gwaith Cymdeithasol Perthnasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion), Swyddogion yr Heddlu, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthnasol, Swyddogion Prawf, Swyddogion Tân ac Achub, Sefydliadau Trydydd Sector a Chymunedol Perthnasol

Dydd Mawrth 10 Tachwedd – Digwyddiadau a Gweithgareddau Lleol

Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin

1. Arwyddion a Dangosyddion o Gam-drin Plant yn Rhywiol

Pwy ddylai fod yn bresennol?

Dyddiad: 11/11/26
Amser: 09:00 - 10:30
Lleoliad: Gweminar ar-lein
Dolen Archebu / E-bost: Staff Sir Gaerfyrddin trwy Thinqi, Staff allanol trwy eu Tîm Dysgu a Datblygu eu hunain yr anfonir y ddolen iddynt

Gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant

Bydd y sesiwn hon yn cyflwyno gweithwyr proffesiynol i'r Templed Arwyddion a Dangosyddion ac yn rhoi cyfle i'w ddefnyddio yn ymarferol.

2. Siarad â Phlant am Gam-drin Rhywiol

Dyddiad: 11/11/26
Amser: 11:00 - 12:30
Lleoliad: Gweminar ar-lein
Dolen Archebu / E-bost: Staff Sir Gaerfyrddin trwy Thinqi, Staff allanol trwy eu Tîm Dysgu a Datblygu eu hunain yr anfonir y ddolen iddynt
Cynulleidfa Darged: Gweithwyr proffesiynol

Gweithwyr proffesiynol

Nod y weminar hon yw helpu i roi'r wybodaeth a'r hyder i weithwyr proffesiynol weithredu, gan ddefnyddio Canllaw Cyfathrebu â Phlant y Ganolfan CSA.

3. Profiad Bywyd o Gam-drin Domestig

Dyddiad: 10/11/26
Amser: 2:30 - 4:30
Lleoliad: Parc Dewi Sant, SA31 3HB
Dolen Archebu / E-bost: Tudalen we Dysgu a Datblygu Thinqi/Sir Gaerfyrddin ar gyfer ymgeiswyr allanol

Cwmni Buddiant Cymunedol Physical Empowerment

Sgwrs am brofiad bywyd a hyfforddiant ar sut i weithio'n effeithiol gyda'r rhai sydd â phrofiad bywyd (yn enwedig o VAWDASV).

4. Mentora Person Ifanc

Dyddiad: 11/11/26
Amser: 12:30pm-1:30pm
Lleoliad: Gweminar ar-lein
Dolen Archebu / E-bost Tudalen we Dysgu a Datblygu Thinqi/Sir Gaerfyrddin ar gyfer ymgeiswyr allanol

Gweithwyr proffesiynol/pobl dan 18 oed/ Gofalwyr

Cyflwyniad cryno ar Fentora a chael eich Mentora.

5. Dads Project a Phrosiect Rhieni Ifanc

Dyddiad: 10/11/26
Amser: 10:00-11:30
Cyflwynwyd gan: Plant Dewi
Lleoliad: Gweminar ar-lein
Dolen Archebu / E-bost Tudalen we Dysgu a Datblygu Thinqi/Sir Gaerfyrddin. Gall gweithwyr proffesiynol hefyd gontractio eu Tîm Dysgu a Datblygu Lleol

Pob Gweithiwr Proffesiynol, y 3ydd Sector, y Sector Annibynnol

Cyflwyniad byr ar gynorthwyo tadau sydd â phlant dan 16 oed a'r Prosiect Rhieni Ifanc

Awdurdod Lleol Ceredigion

09/11/26	**Bydd holl ysgolion Ceredigion yn hyrwyddo Wythnos Genedlaethol Diogelu trwy wasanaethau ysgol a rhaglenni bugeiliol.**	Gwasanaethau i Ysgolion
10/11/26	**Pensetiau Realiti Rhithwir Hyfforddiant Diogelu, Camfanteisio Rhywiol a Throseddol ar Blant.** Mae'r hyfforddiant hwn yn archwilio'r rhwydweithiau troseddu cyfundrefnol sy'n gweithredu yn y DU a sut mae angen i ni fod yn ymwybodol o'r materion diogelu hyn sy'n creu holltau rhwng rhieni a gofalwyr pan fyddant yn ceisio amddiffyn eu plant a'u pobl ifanc.	Dysgu a Datblygu
10/11/26	**Newyddion Tîm Ceredigion- Hyrwyddo Wythnos Diogelu.** Anfonwyd erthygl at holl Staff Ceredigion, yn tynnu sylw at y digwyddiad hwn ac yn hyrwyddo **Canllaw Arfer Da Diogelu Corfforaethol Cysur.**	Pobl a Threfniadaeth
11/11/26	**Ymwybyddiaeth o Droseddau â Chyllell wedi'i alluogi ar gyfer Realiti Rhithwir** Mae ein cyflwyniad Ymwybyddiaeth o Droseddau â Chyllell yn defnyddio profiadau realiti rhithwir ymgolli i hwyluso dealltwriaeth ystyrlon o brofiadau pobl ifanc yn eu cymunedau. Amcanion: • Archwilio'r hyn yr ydym ni'n ei wybod am droseddau â chyllell, pwy sy'n cario cyllyll a pham. • Deall yr achosion sylfaenol a'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â throseddau â chyllell, gan y bydd hyn yn hanfodol ar gyfer unrhyw ymyrraeth effeithiol. • Sut mae dynion ifanc yn cael eu radicaleiddio gan gyfryngau cymdeithasol. • Archwilio strategaethau atal effeithiol a all helpu i leihau troseddau â chyllell a hyrwyddo diogelwch cymunedol. • Creu cysylltiadau â phobl ifanc i'w cynorthwyo i ddatblygu deallusrwydd emosiynol, hunanymwybyddiaeth, ac ymddiriedaeth yn eu greddfau, gan eu grymuso i lywio gwrthdaro a gwneud dewisiadau diogel, gwybodus. • Edrych ar fentrau cymunedol llwyddiannus sydd wedi cael eu rhoi ar waith i leihau troseddau â chyllell a meithrin amgylchedd mwy diogel i bawb. Anfonwch e-bost at dysgu@ceredigion.gov.uk i gadw lle.	Dysgu a Datblygu

12/11/26 **Ymwybyddiaeth o Ddementia wedi'i alluogi ar gyfer Realiti Rhithwir.**

Bwriedir i'r cwrs hwn gynorthwyo a hysbysu gofalwyr, gweithwyr cymdeithasol a staff cymorth wrth ofalu am oedolyn â Dementia. Gan ddefnyddio pensetiau Realiti Rhithwir, bydd y sesiwn yn archwilio profiad yr unigolyn o Ddementia, a'i effaith, yn ogystal â'r goblygiadau i'w anghenion gofal a chymorth. Bydd cyfle hefyd i ystyried a rhannu arferion da a myfyrio ar faterion cyd-destunol i bobl sy'n byw yng Ngheredigion ac yng Nghymru.

Dysgu a Datblygu

13/11/26 **Profiad bywyd Gofalwyr**, deall eu profiadau fel gofalwyr a sut y gallwn ddeall bywyd plentyn yn well i ddiwallu ei anghenion.

Gwasanaeth Maethu

14/11/26 **Lleisiau o Ofal**

Bydd plant sydd â phrofiad o ofal yn dod at ei gilydd ar gyfer ddiwrnod o weithgareddau difyr a chyfle i rannu eu profiadau o fod mewn gofal trwy gelf greadigol a chwarae. Bydd hyn wedyn yn cael ei rannu gyda Grŵp Rhianta Corfforaethol Ceredigion.

Cydgysylltydd Gweithgareddau CLA



Heddlu Dyfed Powys

- **Llamau**

  (10:00-11:00 – Yr heddlu a phartner asiantaethau)

Ymunwch â'r sesiynau YMA.

Mewnbwn ar-lein i'w gyflwyno gan Emma Evans (Pennaeth Gwasanaeth Llamau) - dolen allanol ar gael:

Bydd y cyflwyniad yn cynnwys:

- Gwasanaeth Ôl-drafodaeth a Chyfryngu Plant Coll Llamau.
- Deall nodweddion agored i niwed a phrofiadau pobl ifanc sydd ar goll.
- Cydnabod dangosyddion risg allweddol ac arwyddion o rybudd.
- Archwilio sut y gall asiantaethau weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i wella canlyniadau diogelu i bobl ifanc.

- **Mewnbwn TOEX Tarian**

  (11am-12pm – Mewnbwn yr heddlu yn unig)

Mewnbwn TOEX i'w ddarparu gan y Ditectif Arolygydd Matthew Griffiths. Dydd Mawrth 10 Tachwedd 11am-12pm

- **Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn a Dulliau Ystyriol o Drawma**

  (11:30-13:00 - Yr heddlu a phartner asiantaethau):

Ymunwch â'r sesiwn YMA.

Mewnbwn ar-lein i'w gyflwyno gan ein Hyfforddwr Ystyriol o Drawma newydd, Tom Joyce.

Bydd y sesiwn yn cynnwys:

- Ymwybyddiaeth o Ddulliau Ystyriol o Drawma Sylfaenol.
- Dulliau Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn a manteision y dull hwn wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc.
- Fideo i gynnwys profiad byw person ifanc yn rhoi manylion ei brofiad o ddioddef cam-fanteisio.

- **Mewnbwn ymwybyddiaeth ar-lein i'w gyflwyno ynghylch rhwydweithiau COM**

  (14:00-15:00 – Yr heddlu a phartner asiantaethau)

Ymunwch â'r sesiwn YMA.

Mewnbwn ar-lein i'w gyflwyno gan ein cydweithwyr o Prevent.

Bydd y sesiwn yn cynnwys:

- Cyflwyniad i droseddau grŵp Com
- Nodweddion dioddefwyr a throseddwyr
- Dangosyddion o weithgarwch grŵp Com posibl
- Ymateb a diogelu amlasiantaeth

- **Hyfforddiant Prevent (Dydd Mercher 11 Tachwedd)**

  (10am–11.30am –Mewnbwn gan yr heddlu yn unig)

Bydd tîm Prevent heddlu gwrthderfysgaeth Cymru yn cynnal sesiwn yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu. Bydd y sesiwn hon yn rhoi trosolwg o raglen Prevent a'r broses ar gyfer gwneud atgyfeiriad Prevent. Bydd yn archwilio pryd y dylid gwneud atgyfeiriadau, sut y cânt eu cyflwyno, a beth sy'n digwydd wedi hynny. Bydd y sesiwn hefyd yn archwilio egwyddorion allweddol Prevent, gan gynnwys trothwyon atgyfeirio ar gyfer unigolion sy'n ymddiddori mewn trais eithafol ac ymosodiadau pan fo nifer fawr o bobl yn cael eu hanafu. Defnyddir stori lwyddiannus Prevent ddiweddar i ddangos sut mae'r rhaglen yn ategu camau ymyrryd yn gynnar a diogelu.

Cofrestrwch ar gyfer y sesiwn YMA.

Trwy gydol Wythnos Genedlaethol Diogelu, bydd yr Heddlu hefyd yn gwneud y canlynol:

- **Lleoli swyddogion cymdogaeth yn y cymunedau lleol** (arweinydd: yr Arolygydd Darren Crockford) i godi ymwybyddiaeth ynghylch adnabod a hysbysu am arwyddion cam-fanteisio.
- **Bydd swyddogion Cyswllt Ysgolion yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant / ymwybyddiaeth** (arweinydd: Bethan James) mewn ysgolion lleol ynghylch profiadau bywyd.
- **TOEX (Mynd i'r Afael â Chamfanteisio Cyfundrefnol - dyddiad ac amser i'w gadarnhau - Heddlu yn unig):** Mewnbwn ymwybyddiaeth ar-lein i'w gyflwyno gan DI Matthew Griffiths, beth yw TOEX a sut y gallant gynorthwyo swyddogion gydag ymchwiliadau (mewnbwn ar-lein i'r Heddlu yn unig).

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

1. Sesiwn Coleg Adfer

11:00 (45 munud)
Sesiwn Teams ar roi'r Coleg Adfer ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar waith ynghyd â'r swydd Gweithiwr Cymorth Cymheiriaid. Model / dull addysgol o ymdrin â chymorth llesiant iechyd meddwl yw Coleg Adfer, sy'n hygyrch i bawb yn y gymuned leol gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a'r rhai nad oes ganddynt unrhyw hanes o heriau iechyd meddwl/defnydd o wasanaethau iechyd meddwl. Mae'r holl gyrsiau yn cael eu cyd-gynhyrchu a'u cyd-gyflwyno rhwng y rhai sydd â phrofiad bywyd (a adnabyddir fel Hyfforddwr Cymheiriaid) ac ymarferydd

Ymunwch â'r sesiwn YMA.

2. Profiad Bywyd o ran Gweithdy Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

13:00 (45 munud)
Addysgu nid Anffurfio. Sesiwn/gweithdy Teams – Gweithio i roi terfyn ar FGM trwy weithdai addysg dan arweiniad goroeswyr.

Ymunwch â'r sesiwn YMA.

3.Profiad Bywyd Gofalwyr

15:00 (45 munud)
Sesiwn i gael ei hwyluso gan Grŵp Cymorth Gofalwyr Mandy Dean - Credu Connecting Carers. Bydd yn cyflwyno hanesion 2 ofalwr ac yn archwilio sut y gallwn weithio ochr yn ochr â gofalwyr. Hapus i hyn gael ei wneud ar gael i gyfranogwyr allanol.

Ymunwch â'r sesiwn YMA.

4. Archwiliadau Meddygol Amddiffyn Plant ar Ward Cilgerran

Dydd Mercher 11 Tachwedd: 10:00 (30 munud)
Sesiwn i gael ei hwyluso gan Sian Wilson, BIP Hywel Dda - Nyrs Gofrestredig Pediatreg.

Ymunwch â'r sesiwn YMA.

5. Y profiad o fod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal (CLA) o safbwynt person sy'n gadael gofal

Dydd Mercher 11 Tachwedd: 11:00 (45 munud)

Sesiwn i gael ei chyflwyno gan Zach Nelmes-Palmer a Nerys-Wyn Morgan. Bydd Zach yn cymryd rhan mewn sesiwn cyfweliad ochr yn ochr â Nerys-Wyn Morgan, Nyrs Arweiniol Hywel Dda ar gyfer Plant sy'n Gofalu. Gyda'i gilydd, byddant yn archwilio profiadau Zach fel plentyn sy'n derbyn gofal, gan fyfyrio ar yr hyn a weithiodd yn dda, yr heriau a wynebodd, a'r hyn y gellid bod wedi ei wneud yn wahanol i wella ei brofiad.

Ymunwch â'r sesiwn YMA.

Awdurdod Lleol Sir Benfro

Bydd Sir Benfro yn cynnal digwyddiadau pwrpasol i oedolion ac i blant, sy'n canolbwyntio ar gydnabod a dathlu gwerth profiad bywyd. Cynhelir y digwyddiadau hyn mewn lleoliadau cymunedol, a byddant yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr lleol ddod at ei gilydd, i fyfyrio ar ddysgu, ac i gryfhau dealltwriaeth o ddiogelu trwy leisiau a phrofiadau'r rhai y maent yn eu cefnogi.

Trwy dynnu sylw at brofiadau personol a hyrwyddo dysgu ar y cyd, nod y digwyddiadau yw ysbrydoli ymarfer cadarnhaol ac atgyfnerthu ymrwymiad cymuned gyfan i ddiogelu.

10.11.2026 Thema - Dathlu'r arfer da sy'n digwydd ar draws Gwasanaethau Plant yn Sir Benfro

Bu llawer o waith caled ar draws y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle i gymryd saib, i gydnabod y gwaith hwnnw, i rannu dysgu ac i ddathlu'r gwahaniaeth y mae ein hymdrechion cyfunol yn ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Sir Benfro. Mae'n gyfle i gamu yn ôl o'r pwysau o ddydd i ddydd, i glywed am arfer da, i gydnabod cyfraniad cydweithwyr ac i fyfyrio gyda'n gilydd ar ein cynnydd fel gwasanaeth.

Maent hefyd yn falch o gadarnhau y bydd Pene Turnell yn ymuno â ni yn bersonol o Awstralia, gan gynnig cyfle gwerthfawr i fyfyrio ar ein taith ailosod ymarfer a'r arfer sy'n datblygu ar draws ein gwasanaeth. Bydd Andy Bilson, ein harweinydd ymchwil, hefyd yn ymuno â ni i rannu canlyniadau ei waith yn Sir Benfro. Mae ei waith ymchwil wedi helpu i hysbysu a phennu ein cyfeiriad teithio dros y 12 mis diwethaf, a bydd hwn yn gyfle pwysig i glywed am y gwaith hwnnw a myfyrio ar yr hyn y mae'n ei olygu i'n datblygiad parhaus.

10.11.2026 Thema - Dathliad o gyfathrebu cydweithredol ac ymarfer seiliedig ar gryfderau ym maes diogelu oedolion

Cynnwys - i gynnwys cymysgedd o drafodaethau bwrdd wedi'u hwyluso o drafodaethau astudiaethau achos, cyflwyniadau ac enghreifftiau cadarnhaol o le mae'r dull hwn wedi cael ei ddefnyddio a sut mae wedi cefnogi canlyniadau gwell i unigolion. Ar agor i staff Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Penfro yn unig.



Awdurdod Lleol Powys/ Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

SmashLife UK - Profiad Bywyd

Teitl: *Effaith Gydol Oes Trawma yn ystod Plentyndod: Safbwynt Profiad Bywyd*

Dyddiad: Dydd Mawrth 10 Tachwedd 2026

Hyd: 2 awr, 10:00 am – 12:00 pm

Cynnwys y Sesiwn:

Rhannu profiad bywyd o esgeulustod yn ystod plentyndod, mynd i mewn i ofal, a cham-drin a ddioddefwyd gan yr ymddiriedwyd ynddynt i ofalu. I archwilio effaith hirdymor trawma ar iechyd meddwl, perthnasoedd, hunanwerth, ymddygiad troseddol, dyled, defnydd o sylweddau, a llesiant rhywun fel oedolion. Bydd y sesiwn yn ystyried sut y gall profiadau yn ystod plentyndod lunio pa mor agored i niwed yw oedolion, eu gwytnwch, eu gwellhad a'u hymgysylltiad â gwasanaethau.

Canlyniadau dysgu:

- *Deall effaith gydol oes trawma yn ystod plentyndod a phrofiadau niweidiol.*
- *Cydnabod sut y gall anghenion heb eu diwallu yn ystod plentyndod amlygu eu hunain mewn oedolion.*
- *Archwilio'r cysylltiadau rhwng diogelu plant a diogelu oedolion.*
- *Ystyried pwysigrwydd clywed a deall profiad bywyd.*
- *Myfyrio ar y rhan y mae gweithwyr proffesiynol yn ei chwarae o ran cynorthwyo gwellhad a gwytnwch.*
- *Nodi sut y gall ymarfer diogelu barhau i ganolbwyntio ar y person trwy gydol oes unigolyn.*

Gweminar amlasiantaeth yw hon, sy'n agored i ranbarth llawn MAWWSB.

Ymunwch â'r sesiwn **YMA.**



Dydd Mercher 11 Tachwedd

9:30 – 11:00 am

Gwrywdod Cadarnhaol a Herio Misogynedd

Hwyluswyr:

We know our journey (Pobl Ifanc Sir Benfro gyda Leah Walker)

Cadwch eich lle trwy ddilyn DOLEN.

Bydd y sesiwn yn archwilio'r dysgu y tu ôl i ddatblygiad y pecyn cymorth a sut y gallwn gynorthwyo ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc i hyrwyddo gwrywdod cadarnhaol a herio disgwyliadau rhywedd niweidiol.

Bydd y sesiwn yn cynnwys:

- ➢ Trosolwg o'r prosiect ieuenctid We Know Our Journey, yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu o'n gwaith gyda bechgyn, gan gynnwys sgyrsiau cyffredin ynghylch hunaniaeth, perthnasoedd, iechyd meddwl, pwysau gan gyfoedion, emosiynau a disgwyliadau rhywedd.
- ➢ Cyflwyniad i'r Pecyn Cymorth Gwrywdod Cadarnhaol, gan gynnwys ei nodau, ei themâu a'i ddefnydd ymarferol.
- ➢ Amser myfyrio a thrafod.

Dyddiad cau: 30 Hydref 2026

Pwy ddylai fod yn bresennol?

Ymarferwyr a Rheolwyr Gwaith Cymdeithasol Perthnasol (Gwasanaethau Plant), Swyddogion yr Heddlu, Gweithwyr Addysg Proffesiynol Perthnasol, Swyddogion Adolygu Annibynnol, Ymarferwyr Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaethau Ieuenctid, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthnasol, Gwasanaethau Trais Domestig VAWDASV, Sefydliadau Trydydd Sector a Chymunedol Perthnasol.

2:00– 4:00pm

Cam-drin Ariannol (Oedolion)

Hwylusydd:

Dr Martin Vaughan (MEWI)

Nodau'r Sesiwn:

- ➢ Beth yw cam-drin ariannol
- ➢ Effaith cam-drin ariannol
- ➢ Pwy sydd mewn perygl
- ➢ Meddylfryd troseddwyr
- ➢ Agweddau ar gam-drin ariannol
- ➢ Sut i adnabod cam-drin ariannol
- ➢ Cysylltiadau i fathau eraill o gam-drin
- ➢ Siarad â'r dioddefwr
- ➢ Sicrhau bod y risg cyn lleied â phosibl
- ➢ Camau nesaf

Cadwch eich lle trwy ddilyn DOLEN.

Dyddiad cau: 30 Hydref 2026

Pwy ddylai fod yn bresennol?

Gofalwyr, Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr, Swyddogion yr Heddlu, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthnasol, Rheolwyr Cartrefi Gofal a Nyrsio, Rheolwyr Comisiynu, Rheolwyr Gofal Cartref, Elusennau Dementia/Pobl Hŷn, Swyddogion Tân ac Achub a Sefydliadau Trydydd Sector a Chymunedol Perthnasol.

Dydd Mercher 11 Tachwedd

Diwrnod Digwyddiadau Plant

Sir Gaerfyrddin:

Arddangosfa Through the Doors

Darganfyddwch *Through the Doors*, arddangosfa rymus sy'n dangos lleisiau a phrofiadau pobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin. Datblygwyd yr arddangosfa o waith cyfranogol yn archwilio rhwystrau i fod yn bresennol yn yr ysgol, ac mae'n cynnig cipolwg unigryw ar yr heriau sy'n wynebu plant a phobl ifanc. Trwy fynegiant creadigol, gan gynnwys gwaith celf, barddoniaeth a cherddoriaeth, mae pobl ifanc yn rhannu eu hanesion, eu safbwyntiau a'u syniadau ar gyfer newid, gan helpu i godi ymwybyddiaeth a hybu dealltwriaeth ar draws ein cymunedau.

Ceredigion:

Plant â Phrofiad o fod Mewn Gofal: Rhannu Profiadau trwy Greadigrwydd *(Dydd Sadwrn 14 Tachwedd)*

Yng Ngheredigion, bydd plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cymryd rhan mewn sesiynau gweithgareddau difyr sydd â'r bwriad o'u helpu i rannu eu meddyliau, eu teimladau a'u profiadau mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Gan ddefnyddio dulliau seiliedig ar chwarae a chreadigol, bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i fynegi eu barn a llunio dealltwriaeth o'u profiadau. Bydd y safbwyntiau a gesglir yn cael eu rhannu gyda'r Grŵp Rhianta Corfforaethol i helpu i hysbysu cymorth a gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Sir Benfro:

Lleisiau Ifanc, Profiad Bywyd, Gwrando a Gweithredu: Digwyddiad Diogelu a Rhuban Gwyn

Yn Sir Benfro, bydd pobl ifanc o ysgolion a lleoliadau ieuenctid yn dod at ei gilydd ar gyfer digwyddiad Diogelu a Rhuban Gwyn ar y cyd sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo gwrywdod cadarnhaol, perthnasoedd iach a diogelu. Gan chwarae rhan flaenllaw drwy gydol y digwyddiad, bydd pobl ifanc yn cyflwyno adnoddau, yn rhannu negeseuon allweddol ac yn archwilio sut y gellir ymwreiddio dysgu yn eu cymunedau ysgol. Bydd y digwyddiad grymuso hwn yn cefnogi trafodaethau ystyrlon, yn annog newid cadarnhaol ac yn chwyddo lleisiau pobl ifanc yn y broses o greu amgylcheddau mwy diogel sy'n dangos mwy o barch.

Powys:

Bydd Powys yn cynnal rhaglen amrywiol o weithgareddau yn ystod yr Wythnos Diogelu, gyda'r bwriad o ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn ffyrdd creadigol ac ystyrlon. Bydd y digwyddiadau yn cynnwys ystafelloedd dianc ar thema diogelu ar gyfer ysgolion, gweithgareddau ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, diwrnodau gweithgareddau pwrpasol, a phodlediad sy'n cynnwys gofalwyr maeth a phobl ifanc sydd mewn gofal ar hyn o bryd. Trwy'r dulliau arloesol hyn, bydd cyfranogwyr yn cael cyfleoedd i rannu eu profiadau, i ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion diogelu, ac i gyfrannu at lunio gwasanaethau a chymorth. Mae'r rhaglen yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i gyfranogiad ac ymgysylltiad ar draws y sir, er gwaethaf yr heriau o ddarparu gweithgareddau mewn ardal ddaearyddol mor fawr.

Dydd Iau 12 Tachwedd

9:00 – 3:30 pm

Cadwch eich lle trwy ddilyn DOLEN.

Dyddiad cau: ***Lleoedd i'w cynnig ar sail y cyntaf i'r felin***

Cynhadledd Ranbarthol: Dysgu o Brofiad Bywyd i Atal Niwed Rhywiol Gyda'n Gilydd

Lleoliad: Coleg Sir Benfro, Hwlffordd

Yn unol â'r thema ranbarthol eleni, sef Profiad Bywyd, bydd Awdurdod Lleol Sir Benfro yn cynnal cynhadledd wyneb yn wyneb ddydd Iau 12 Tachwedd rhwng 9.00am a .30pm (cofrestru 9am).

Mae'r Prif Siaradwyr yn cynnwys:

- Nici Evans, Cynghorydd Gwella Arferion Cymru – Canolfan CSA
- Y Fonesig Jasvinder Sanghera CBE, DBE
- Elicia Curtis, Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Gweithredol - Reign Collective
- Sophie Olson, Siaradwr Rhyngwladol, Addysgwr ac Awdur The Flying Child: Finding a Purposeful Life After Child Sexual Abuse
- Jan Pickles OBE, Learning Lessons From Our Bravery Brought Justice Review / Caldey Island
- Nikki Carroll-Beale, Llysgennad Profiad Bywyd - Llwybrau Newydd

Gweld y Rhaglen

ARCHEBU AR-LEIN

Lleoedd i'w cynnig ar sail y cyntaf i'r felin.

Yn ôl i "Cipolwg ar yr wythnos"

Dydd Gwener 13 Tachwedd

9:30 – 10:30 am

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS): Dyletswydd Gyfreithiol i Gyfeirio

Hwylusydd:

Owain Rowlands, Cynghorydd Allgymorth Rhanbarthol DBS ar gyfer Cymru

Cadwch eich lle trwy ddilyn DOLEN.

Dyddiad cau: 30 Hydref 2026

Bydd y gweithdy hwn yn ymdrin â:

- Swyddogaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Diweddariadau diweddar i'r rhai sydd eisoes yn gyfarwydd â DBS
- Deall archwiliadau DBS a chymhwysedd, gan gynnwys gweithlu a lefel yr archwiliad
- Yr hyn sy'n gyfystyr â gweithgaredd a reoleiddir
- Dyletswyddau a chyfrifoldebau sefydliad wrth wneud atgyfeiriadau i'r DBS
- Deall proses wahardd y DBS a chanlyniadau cael eich rhoi ar un rhestr wahardd neu'r ddwy

Pwy ddylai fod yn bresennol?

Ymarferwyr a Rheolwyr Gwaith Cymdeithasol Perthnasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion), Swyddogion yr Heddlu, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthnasol, Swyddogion Prawf, Swyddogion Tân ac Achub, Swyddogion Adnoddau Dynol, Sefydliadau Trydydd Sector a Chymunedol Perthnasol.

1:30 – 3:00 pm

Panel Goroeswyr: Profiad Bywyd o Gam-drin Domestig

Hwyluswyr:

Panel Cynghori Goroeswyr Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cadwch eich lle trwy ddilyn DOLEN.

Dyddiad cau: 30 Hydref 2026

Ynglŷn â'r sesiwn hon:

Mae Panel Cynghori Goroeswyr Canolbarth a Gorllewin Cymru yn eich gwahodd i'w digwyddiad Profiad Bywyd ddydd Gwener, 13 Tachwedd, i ddathlu Wythnos Genedlaethol Diogelu.

Bydd y digwyddiad hwn yn dod â chyfoeth o wybodaeth y panel am amrywiaeth o bynciau ynghyd, pob un wedi'i hysbysu gan eu profiad bywyd eu hunain o gam-drin domestig, yn ein rhanbarth. Gobeithiwn y gwnewch chi ymuno â ni, i gael golwg unigryw ar yr arferion gorau a'r heriau sy'n bodoli i oroeswyr VAWDASV yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Bydd y themâu a archwilir yn amrywio o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, trais rhywiol, stelcio, a'i effaith ar blant, yn ogystal â chroestoriadedd, gwledigrwydd a gwrth-honiadau.

Pwy ddylai fod yn bresennol?

Ymarferwyr a Rheolwyr Gwaith Cymdeithasol Perthnasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion), Swyddogion yr Heddlu, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Perthnasol, Swyddogion Prawf, Swyddogion Tân ac Achub, Cadeiryddion Cynadleddau CP, Gwasanaethau ac Ymarferwyr Cam-drin Domestig, Sefydliadau Trydydd Sector a Chymunedol Perthnasol.

Yn ôl i "Cipolwg ar yr wythnos"